

## Is-grŵp Adfer y Cyngor Partneriaeth ar Covid-19

### Diben

1. Cynnig sefydlu Is-grŵp Adfer ("yr is-grŵp") o'r Cyngor Partneriaeth i adeiladu ar drawsnewidiad mewn gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn argyfwng Covid-19 a sbarduno hynny.
2. Ystyried y Cylch Gorchwyl Drafft yn Atodiad A ar gyfer yr is-grŵp.

### Cefndir

3. Mae argyfwng Covid-19 wedi arwain at lefelau digynsail o ymgysylltu rhwng pob lefel o'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mewn ymdrech i ddiogelu dinasyddion a darparu gwasanaethau ar frys.
4. Mae Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, partneriaid gwasanaethau cyhoeddus a'r sector preifat wedi ymateb i'r her ac wedi datblygu dulliau ac atebion arloesol a hyblyg i fodloni gofynion brys.
5. Mae graddau a rheoleidd-dra'r ymgysylltu rhwng y Llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol wedi helpu i alluogi'r ymateb cyfunol ac effeithiol hwn. Mae'n bwysig adeiladu ar sail hynny wrth i'n gwlad ddechrau ailadeiladu ein gwasanaethau cyhoeddus a'n heconomi, er ein bod yn gwybod na fydd hon yn broses linellol ac efallai y bydd angen troi'n ôl i'r cam ymateb os bydd ail don neu os bydd y feirws yn cyrraedd uchafbwynt eto.
6. Mae llawer yn cael ei wneud ar lefel leol drwy awdurdodau a gwasanaethau unigol; a thrwy grwpiau ar y cyd megis Grwpiau Cydgysylltu Strategol. Yn ogystal, cynigir y gallai is-grŵp o'r Cyngor Partneriaeth fod yn gyfrwng i arweinwyr gwasanaeth cyhoeddus gyfrannu at gynlluniau adfer Llywodraeth Cymru a helpu i lywio'r gwaith hwnnw.
7. Ni fydd gwaith yr is-grwp yn disodli'r gofyniad am drefniadau partneriaeth eraill sy'n cynnwys cymunedau lleol, partneriaid a mecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau am wasanaethau lleol. Bydd yr is-grŵp hwn yn nodi materion cyffredin ac yn eu cyflwyno ar lefel strategol a chenedlaethol a bydd hynny yn ei dro yn llywio, yn cefnogi ac yn darparu cyd-destun cliriach ar gyfer yr ymdrech leol.
8. Mae cynlluniau adfer Llywodraeth Cymru yn cael eu llywio gan 'Fframwaith ar gyfer Adferiad' y Prif Weinidog a'r dogfennau 'Llacio'r Cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi'. Mae'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn cynnull trafodaethau arbenigol o amgylch y Bwrdd i ystyried effaith COVID 19 ar

wasanaethau cyhoeddus, yr economi a phobl sy'n agored i niwed, a sut i sicrhau y gall Cymru gael adferiad gwyrdd yn y dyfodol.

**Is-grŵp arfaethedig i gefnogi cyd-adferiad**

9. Yn dilyn trafodaethau wythnosol rhwng y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ac arweinwyr awdurdodau lleol, a gohebiaeth ag Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae Arweinwyr yr Awdurdodau Lleol wedi cytuno ar gynnig i sefydlu Is-grŵp Adfer o'r Cyngor Partneriaeth i barhau â'r ymdrech hon ar y cyd i wella.
10. Bydd yr Is-grŵp Adfer hwn yn canolbwyntio ar baratodau ar gyfer adferiad yn y dyfodol, gan gynnwys ystyried y materion, y risgiau, y cyfleoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer adferiad cynaliadwy a thrawsnewid tymor hwy. Ceir rhagor o fanylion yn y cylch gorchwyl yn Atodiad A.

Atodiad A

**CYNGOR PARTNERIAETH CYMRU:  
IS-GRŴP ADFER  
Cylch Gorchwyl**

**1. Diben**

Mae Is-grŵp Adfer (yr Is-grŵp) yn Is-grŵp o Gyngor Partneriaeth Cymru.

Wrth i Gymru symud allan o'r cyfyngiadau symud ac i'r cyfnod adfer, bydd yr is-grŵp hwn yn darparu mecanwaith ffurfiol i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill barhau i ymgysylltu ar adferiad COVID-19. Nid argyfwng tymor byr mo hwn, a bydd parhau â'r cyd-arweinyddiaeth effeithiol a ddangoswyd gan wasanaethau cyhoeddus yn ystod y misoedd diwethaf yn hollbwysig wrth weithredu'r cynllun adfer ar gyfer Cymru.

Rôl cynghori ac ymgynghorol sydd gan y grŵp yn hytrach na rôl gwneud penderfyniadau.

**2. Cylch gwaith ac amcanion**

Mae gan Gyngor Partneriaeth Cymru gylch gwaith sy'n cynnwys diwygio gwasanaethau cyhoeddus a chydweithredu, sbarduno gwelliannau i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a chymryd camau i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae gweision cyhoeddus wedi profi eu bod yn ddyfeisgar, yn arloesol ac yn hyblyg ac mae'n hanfodol bod yr hyn a ddysgir o'r cyfnod hwn yn cael ei harneisio a'i ddefnyddio i drawsnewid gwasanaethau.

Bydd gwaith y Grŵp yn cael ei wneud yng nghyd-destun gwaith ehangach ar adfer, gan gynnwys mabwysiadu'r gwerthoedd a fynegir ym mhob rhan o gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r pandemig.

Ar 24 Ebrill 2020 Disgrifiodd *Arwain Cymru allan o'r pandemig coronafeirws: fframwaith ar gyfer adferiad* Llywodraeth Cymru dair elfen a helpodd i ddisgrifio'r dull cyffredinol o benderfynu sut a phryd y gellid lliniaru'r cyfyngiadau, a thrwy hynny ddechrau ar y daith hir tuag at adferiad. Caiff elfennau trawsnewidiol gwaith yr is-grŵp eu profi'n rheolaidd yn erbyn rhai o egwyddorion allweddol y fframwaith hwnnw, gan gynnwys effeithiau posibl newid trawsnewidiol ar fudd economaidd; lesiant cymdeithasol a seicolegol; a chydraddoldeb.

Aeth dogfen Llywodraeth Cymru 'Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod' ymhellach wrth ddisgrifio'r ystyriaethau hanfodol a fydd yn pennu pa mor gyflym y bydd Cymru yn symud i mewn i'r cyfnod adfer a thrwy'r cyfnod hwnnw, a'r camau a fydd ynghlwm wrth hyn.

Bydd yr is-grŵp yn cynghori Gweinidogion Cymru ac yn rhoi safbwyntiau iddynt wrth gynllunio'r adferiad a bydd yn darparu adroddiadau i'r Cyngor Partneriaeth i lywio ystyriaethau'r Cyngor o'r rhain a materion cysylltiedig. Gallai'r meysydd gwaith posibl y dylai'r is-grŵp hwn eu dilyn gynnwys:

- **Sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu a'u gwreiddio** yn dilyn profiad argyfwng Covid-19 a'r arloesi a ddangoswyd gan weision ac arweinwyr cyhoeddus yng Nghymru. Bydd yr is-grŵp yn helpu i ddatblygu dull unedig i sicrhau bod yr arloesedd a'r creadigrwydd hwn yn helpu i ddiffinio ffyrdd newydd o weithio a ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion a busnesau.
- **Rhoi barn a chyngor i Weinidogion Cymru a'r Cyngor Partneriaeth** mewn perthynas ag adfer Cymru yn y tymor hwy a lefelau posibl yr effaith leol y gallai agenda drawsnewidiol ei chael ar gyfer cymunedau o ran budd economaidd; llesiant cymdeithasol a seicolegol; a chydaddoldeb.
- **Manteisio ar yr agenda ddigidol**, gweithio gydag arweinwyr digidol a defnyddio'r dysgu sy'n ymwneud â gwasanaethau digidol a gweithio ystwyth, ac archwilio offer a mecanweithiau i gynorthwyo adferiad, yn enwedig drwy fwy o gydweithio ac ymgysylltu digidol.

Bydd cylch gwaith manwl yr is-grŵp yn cael ei ddatblygu ymhellach a'i gytuno gan yr aelodau a'r Cyngor Partneriaeth.

### 3. Dull gweithredu

Bydd y Grŵp yn cyfarfod yn aml [*amlder i'w benderfynu*] yn ystod y chwe mis cyntaf ac yna'n addasu'r amlder yn ôl yr angen, gan ddibynnu ar ystod o ffactorau gan gynnwys effaith unrhyw ymchwydd pellach mewn achosion neu farwolaethau Covid-19.

Bydd hwn yn grŵp gorchwyl a gorffen a bydd ei gylch gwaith a'i ddull gweithredu yn addasu yn unol â hynny. Bydd adolygiad ffurfiol o bryd i'w gilydd i wneud yn siŵr bod y grŵp yn para cyhyd â'i fod yn creu gwerth i'r aelodau.

Dylai papurau gael eu cylchredeg o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod fel arfer. Gellir dosbarthu deunydd i'w ystyried y tu allan i'r Pwyllgor gyda chydysniad y Cadeirydd.

### 4. Adnoddau

Bydd Ysgrifenyddiaeth y Grŵp a'r gweithgorau cysylltiedig yn cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru. Caiff agendâu a phapurau eu cytuno ar y cyd â CLILC ymlaen llaw.

### 5. Aelodaeth

Caiff y Grŵp ei gadeirio gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am faterion Llywodraeth Leol (y Gweinidog) neu gan Weinidog arall o Lywodraeth Cymru a enwebir fel ei ddirprwy.

Gall y Gweinidog wahodd Gweinidogion eraill Cymru neu Ddirprwy Weinidogion Cymru i fynychu cyfarfodydd ar gyfer eitemau ar yr agenda sy'n ymwneud â chyfrifoldebau eu portffolio. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Gweinidog yn ôl yr angen.

Yr Aelodaeth i'w chadarnhau.

## **6. Dirprwyaethau**

Gall yr is-grŵp sefydlu gweithgorau technegol i gefnogi ei waith. Bydd yr is-grŵp yn cytuno ar gylchoedd gwaith grwpiau o'r fath. Gall yr is-grŵp hefyd sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen os bydd angen.

Bydd Aelodau'r grwpiau gorchwyl a gorffen yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion dethol gwasanaethau cyhoeddus a, lle y bo'n briodol, ymgynghorwyr annibynnol. Gall Cadeiryddion perthnasol wahodd cynghorwyr arbenigol i fynychu cyfarfodydd grŵp gorchwyl a gorffen penodol pan fo angen.

Dylai nifer yr Aelodau ar bob gweithgor fod yn gyson â'r broses o wneud penderfyniadau effeithlon ac effeithiol.

## **7. Adolygiadau**

Bydd y Grŵp yn adolygu'r cylch gorchwyl hwn o bryd i'w gilydd.

## **8. Cyfathrebu**

Drwy gydol y cyfnod adfer, cydnabuwyd bod angen cyfathrebu cryf a sgwrs â'r cyhoedd ar lefel genedlaethol a lleol. Fel gyda'r rheolaethau ymddygiadol a chymdeithasol sydd ar waith ar bwyntiau amrywiol o'r pandemig Covid-19, bydd y daith adfer yn gofyn am lefel uchel o ymgysylltiad ac ymrwymiad gan y cyhoedd i helpu i liniaru effaith Covid-19 yn y gymuned.

Bydd angen i'r is-grŵp hwn ystyried effaith y gwaith adfer a rhoi blaenoriaeth i'r ffordd y caiff newidiadau eu cyfleu i'r cyhoedd ac i'n gweithluoedd wrth i'r cyfnod adfer fynd rhagddo.

Fel arfer caiff agenda, papurau a chofnodion pob cyfarfod o'r is-grŵp ac unrhyw adroddiadau a gomisiynir gan yr is-grŵp eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar ei gwefan yn unol â deddfwriaeth sy'n rheoli hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth.